

CATALOG / CATALOGUE

Cystadleuaeth Gelf

Osi Rhys Osmond

Art Prize

2023

Diolch i Gyngor Neuadd Goffa Llansteffan am bob cefnogaeth.

With thanks to Llansteffan Memorial Hall Council for its ready support.



osirhysosmond.wordpress.com

Cystadleuaeth Gelf **Osi Rhys Osmond** Art Prize 2023

Roedd Osi Rhys Osmond, un o drigolion pentre Llansteffan am 30 mlynedd cyn iddo farw yn 2015, yn adnabyddus fel arlunydd, darlledwr, athro ac awdur. Yn Aelod Anrhydeddus o Orsedd y Beirdd, cyflwynwyd un o'i luniau yn rhodd gan Senedd Cymru i senedd y Ffleminiaid. Roedd yn ddyn ysbrydoledig yn tanio brwdfrydedd pawb a fyddai yn dod ar ei draws gyda'i egni a'i gariad am ymdrech a chyflawniad unigolion.

Trefnwyd y Gystadleuaeth Gelf hon ar y cyd gydag Ysgol Gelf Sir Gâr fel teyrnged i Osi gan ei fod yn bennaeth am flynyddoedd lawer ar y Cwrs Sylfaen. Agorwyd y gystadleuaeth i holl fyfyrwyr presennol y coleg. Bydd arddangos y gwaith yn y pentref yn hybu'r celfyddydau a diwylliant yn lleol tra hefyd yn creu'r cyfle i gynulleidfa ehangach gwerthfawrogi talentau'r myfyrwyr.

—

Osi Rhys Osmond, who lived in Llansteffan for 30 years before his death in 2015, was an internationally known artist, broadcaster, teacher and author. An Honorary member of the Gorsedd of Bards, one of his paintings was given as a gift from Wales to the Flemish parliament. Osi was an inspirational man who enthused all who met him with his energy and his love for individual human endeavour and achievement.

This Art Competition, to commemorate Osi's name, has been arranged in conjunction with the Carmarthen School of Art, where Osi was for many years head of the Foundation Course. Entries were encouraged from all current students of the college. By exhibiting the work in the village it will promote arts and culture locally, while providing an opportunity for the artists to have their work appreciated by a wider public.

Cultural Alzheimer's

Thema cystadleuaeth 2023 ydyw Cultural Alzheimer's, ymadroddiad a fathwyd gan Osi mewn dadansoddiad beirniadol o'r diwylliant Cymreig. Yn y traethawd cyntaf yn y llyfr o'r un enw, dywed yr awdur:

'One of the principle causes of our cultural Alzheimer's is our internal estrangement – we don't know our own country, our history, or the other language.'

The theme chosen for 2023 is **Cultural Alzheimer's**, a phrase coined by Osi in a critical analysis of Welsh culture. This is the subject of the first essay in the book of the same name in which the author asserts the quote above.

Enw / Name: **Tammy Davies**

Teitl y gwaith / Title of work: **Ble mae'r Cymraeg wedi mynd?**

Cyfrwng / Medium: **Calico Llosg wedi'i Frodio a Siarcol / Embroidered Burnt Calico & Charcoal**

Datganiad yr artist:

Ar ôl darganfod mai'r Gymraeg yn unig sydd ganddi yn ei chefnidir, holodd Tammy pam na chafodd ei magu yn siarad yr iaith - yn enwedig gyda Mam-gu sy'n siarad Cymraeg. Ar ôl ymchwilio i hanes ei theulu, darganfu fod ei Hen Dat-cu a Mam-gu wedi priodi siaradwyr Saesneg. Mae hi'n credu, oherwydd ymfudiad dyn i'r cymoedd ar gyfer gwaith yn y diwydiant glo, fod hyn wedi gwanhau'r iaith ac yn lle dysgu Cymraeg i'w priod, dim ond Saesneg oedden nhw'n siarad ar yr aelwyd. Mae ei darn yn dangos sut y gwnaeth y diwydiant glo losgi'r Gymraeg yn anfwriadol i ffwrdd o'i choeden deuluol ac o wead ei bywyd.

Artist's statement:

After discovering that she only has Welsh in her background, Tammy wondered why she wasn't brought up speaking the language - especially with a Welsh speaking Grandmother. After researching her family history, she discovered that her Great-Grandparents married English speakers. She believes, due to human migration to the valleys for work in the coal mining industry, that this diluted the language and instead of teaching their spouse Welsh, they just spoke English at home. Her piece shows how the coal mining industry inadvertently burnt the Welsh away from her family tree and from the fabric of her life.

Pris / Price **£50**

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **tazadee@yahoo.co.uk**

Enw / Name: **Gareth Edwards**

Teitl y gwaith / Title of work: **Cowslip**

Cyfrwng / Medium: **Acrylig / Acrylic**

Datganiad yr artist:

Dyma beintiad lle mae dwy elfen o hanes Cymru yn dod at ei gilydd mewn tirwedd draddodiadol. Y lle, Cowslip yn y Mynydd Du, Sir Gaerfyrddin, lle safai tollbyrth gynt. Roedd y tollborth hwn yn un o nifer yr ymosodwyd arnynt yn ystod Terfysgoedd Rebeca, y tro cyntaf i'r Cymry ymddangos yn groes i'r llywodraeth. Mae darn o frethyn traddodiadol Gymreig yn hongian o'r bont fel symbol o'r herfeiddiad hwn. Yn y paentiad mae'r afon liferiol yn dwyn enwau'r cymoedd Cymraeg eu hiaith a ddinistriwyd i gyflenwi dŵr i brif ddinasoedd Lloegr.

Artist's statement:

This is a painting where two elements of Welsh history come together in a traditional landscape. The place, Cowslip in the Black Mountains, Carmarthenshire is where a tollgate formerly stood. This tollgate was one of many attacked during the Rebecca Riots, the first time the Welsh people had sprung up in defiance of the government. A piece of traditional Welsh cloth hangs from the bridge as a symbol of this defiance. In the painting the flowing river carries the names of the Welsh speaking valleys that were destroyed to supply water to the major cities in England.

Pris / Price **£150**

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **GE038303@colegsirgar.ac.uk**

Enw / Name: **Alison Fletcher**

Teitl y gwaith / Title of work: **Cudd olwg**

Cyfrwng / Medium: **Mixed Media: found object, textiles, photogram /
Cyfryngau Cymysg: gwrthrych happael, tecstilau, ffotogram**

Datganiad yr artist:

Yn y ddeunawfed ganrif roedd y diwydiant gwlân yng Nghymru yn chwarae rhan hollbwysig wrth ddarparu'r brethyn ar gyfer y dillad roedd caethweision y Caribî ac America yn eu gwisgo.

“ The making of negro cloth was clearly a significant phenomenon, especially in mid-Wales, yet it is little attended to by textile historians and it figures hardly at all in popular memory.”
(Evans C, 2019 td.1)

Y 'Welsh Plains' oedd prif fath y brethyn hwn, a gynhyrchwyd gan y toreth o felinau gwlân yn Sir Feirionnydd a Sir Drefaldwyn. Nid yn unig y mae hyn ar goll o'n hanes, ond hefyd mae wedi'i guddio mewn byd sydd wedi newid.

Chris Evans (2019) Telling the Story of Negro Cloth and Welsh Plains.
<http://www.welshplains.cymru/index.asp?pageid=695827>

Cyrchwyd 17eg Mawrth, 2023.

Artist's statement:

In the eighteenth century the Welsh woollen industry played a crucial role in providing the cloth that clothed the slave population of the Caribbean and America.

“ The making of negro cloth was clearly a significant phenomenon, especially in mid-Wales, yet it is little attended to by textile historians and it figures hardly at all in popular memory.”
(Evans C, 2019 p.1)

The dominant variety of this cloth was Welsh Plains, produced by the proliferation of woollen mills in Merionethshire and Montgomeryshire. Not only is this missing from our history, but it has also been concealed in a changed landscape.

Chris Evans (2019) Telling the Story of Negro Cloth and Welsh Plains.
<http://www.welshplains.cymru/index.asp?pageid=695827>

Accessed 17th March, 2023. .

Pris / Price NFS

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **fletchalis@aol.com**

Enw / Name: **Dan Goodchild**

Teitl y gwaith / Title of work: **SPAM LEGO**

Cyfrwng / Medium: **Fideo digidol / Digital video**

Datganiad yr artist:

Rwy'n dy garu di

Mentrwr lwcus

Yn y presennol

Nid mewn rhyw ddyfodol perffaith

Mae fy ngwaith yn dal drych toredig i fyny at ddiwylliant toredig

Artist's statement:

I love you

Lucky punter

In the here and now

Not in some future perfect

My work holds a broken mirror up to a broken culture

To view the video:



<https://www.youtube.com/watch?v=gQA0Nbv1oV0>

Pris / Price NFS

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **dangoodchild@ymail.com**

Enw / Name: **Daniela Graham**

Teitl y gwaith / Title of work: **Tameidiog / Fragmented**

Cyfrwng / Medium: **Cyfryngau Cymysg / Mixed media**

Datganiad yr artist:

Tra'n byw yng Nghymru, rwyf wedi dysgu bod y portreadau cryfaf o dirlun Cymru, darluniau delfrydol o ddyffrynnoedd gwyrdd prydferth, heb eu cyffwrdd gan fodernedd, yn ildio i realiti cydfodol gwahanol. Gorffennol a'i wreiddiau'n ddwfn mewn diwydiant.

Mwynfeydd sydd bellach yn ddistaw, mae olion rhydlyd pyllau glo a oedd wedi'u lleoli ar draws "Y Cymoedd" a safleoedd diwydiannol eraill i'w gweld o hyd heddiw, yn creu cysgodion dros y tirlun. I mi, mae'r gweddillion hyn yn atgofiadau ingol o'r gorffennol. Atgof sy'n pylu, bron yn anghofiedig, yn dameidiog, yn loetran yn rhithiol yn y cefndir, ond yn amlwg bob amser i'r rheiny sy'n cofio.

Artist's statement:

Whilst living in Wales, I have learnt that the dominant representations of the Welsh landscape, idyllic depictions of picturesque green valleys, untouched by modernity, give way to a different coexisting reality. A past deeply rooted in industry.

Mines now silent , the rusting relics of collieries that dotted "The Valleys" and other industrial sites are still evident today, creating shadows over the landscape. To me, these remnants are a poignant reminder of the past. A memory that is fading, almost forgotten, fragmented, lingering ghostly in the background, but ever apparent to those who remember.

Pris / Price NFS

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **hillcrest.d@gmail.com**

Enw / Name: **Mathew Lee Griffiths**

Teitl y gwaith / Title of work: **Llyfr du yn llosgi / Black book burning**

Cyfrwng / Medium: **Dylunio 3D (rendro digidol) / 3D design (digital render)**

Datganiad yr artist:

Mae'r darn hwn yn cynrychioli hanes Caerfyrddin yn cael ei losgi'n ulw o'n cof. Dywedir mai Llyfr Du Caerfyrddin yw'r llawysgrif gynharaf sydd wedi goroesi a ysgrifennwyd yn Gymraeg ac mae'n dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif. Fel rhywun sydd wedi byw yng Nghaerfyrddin ac nad oedd erioed wedi clywed hanes y llyfr hwn, mae'n dangos pa mor hawdd y gall agweddau ar ddiwylliant Cymru lithro drwy'r bwlch a mynd yn angof. Crëwyd y gwaith hwn mewn meddalwedd modelu 3D rwy'n ei ddefnyddio o'r enw Blender, a gafodd ei rendro allan wedyn fel llun llonydd.

Artist's statement:

This piece represents the history of Carmarthen being incinerated from our memory. The Black Book of Carmarthen is said to be the earliest surviving manuscript written in Welsh dating back to the 13th century. As someone who has lived in Carmarthen and never heard the story of this book it goes to show how easily aspects of Welsh culture can slip through the gap and be forgotten. This work has been created in a 3D modelling software I use called Blender, which was then rendered out using the cycles engine as a still shot.

NFS

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **mathewleegriffiths@gmail.com**

Enw / Name: **Emma Hill**

Teitl y gwaith / Title of work: **Cartref**

Cyfrwng / Medium: **Ffotograff / Photograph**

Datganiad yr artist:

Mae 'Cartref' yn rhan o gyfres sy'n archwilio perthyn a chof. Gan sefyll fel gwarchodwr i'r gorffennol ac eto'n methu bod yn rhan o'r dyfodol, mae'r bythynnod Cymreig hyn wedi'u gadael ar ôl, yn segur ac wedi rhewi mewn amser. Atgof pell y glynir wrtho gan y rheiny sy'n berchen arnynt ond nad ydynt yn dymuno byw ynddynt.

Artist's statement:

'Cartref' is part of a series that explores belonging and memory. Standing as a sentinel to the past and yet not able to be part of the future, these Welsh cottages are left behind, redundant and frozen in time. A distant memory clung to by those that own them but don't want to live in them.

NFS

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **emmamhill@live.co.uk**

Enw / Name: **Sara Llwyd James**

Teitl y gwaith / Title of work: **Hiraeth diwylliant**

Cyfrwng / Medium: **Cyfryngau Cymysg / Mixed Media**

Datganiad yr artist:

Rwy'n hiraethu am y Gymru rydym wedi'i cholli dros amser,
Y Gymru lle'r oedd cymunedau'n gweithio yn y pyllau glo,
yn gweithio fel tîm, math teuluol o feddylfryd,
bellach wedi diflannu i awyr denau'r nen.

Pan gadwodd ein hynafiaid benywaidd ein traddodiadau yn fyw,
Gwlân yn cael ei nyddu ar fulod, yn ymestyn am filltiroedd,
Creu blancedi Cymreig i oroesi,
Wedi'u trosglwyddo gan genedlaethau i'n hatgoffa o'r adegau hyn.

Ond gyda'r holl ffonau a hoffiadau instagram hyn,
Tybed faint o Gymry sy'n cymryd yr amser-
I gofio'r hyn a adeiladwyd gyda ni mewn golwg,
Dylai diflaniad y diwylliant hwn ddod yn drosedd.

Artist's statement:

I long for the Wales we have lost over time,
The Wales where communities worked in the mines,
working as a team, a familial type of mind,
now disappeared into the thin air of the sky.

When our female ancestors kept our traditions alive,
Woolen spun on mules, going on for miles,
Creating welsh blankets to simply survive,
Passed down by generations to remind us of these times.

But with all these phones and instagram likes,
I wonder how many Welsh people take the time-
To remember what was built with us in mind,
The disappearance of this culture should become a crime.

Pris / Price **£80**

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **sara.llwyd@hotmail.co.uk**

Enw / Name: **Daniel Jones**

Teitl y gwaith / Title of work: **'Eniaun pro Anima'**

Cyfrwng / Medium: **Haeearn / Iron**

Datganiad yr artist:

'pro anima Eniaun• Gorgorest fecit'

[Er enaid Einion, Gorgrest a greuwyd hyn]

Dyma'r geiriau a grafwyd ar Groes Geltaidd yn Abaty Margam yn y nawfed ganrif. Dechreuais i weithio haeearn fel plentyn, efo einion a greodd fy nhad-cu yng ngwaith dur Abbey yn yr ugeinfed ganrif. Mae haeearn wedi llifo trwy waed y deheuwyd am ganrifoedd. Ond, y naill ar ôl y llall, mae'r ffwrneisi'n diffodd, ac ar eu angau mae'n hunaniaeth treftadol yn gwasgaru a difodi.

Tan tywylla'r gloyod olaf

Enaid haeearn fydd.

Artist's statement:

'pro anima Eniaun• Gorgorest fecit'

[For the soul of Einion, Gorgrest made this]

These are the words etched on a Celtic Cross in Margam Abbey in the ninth century. I started working with iron as a child, with an anvil that my grandfather created in Abbey steel works in the twentieth century. Iron has flowed through the blood of the southerners for centuries. But, one after another, the furnaces are extinguished, and with their death our inherited identity is dispersed and eradicated.

Until the last embers become dark

The soul shall be as iron.

Nid yw ar werth, ond gellir trafod copiau / Not for sale but will discuss copies.

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **beithyr@gmail.com**

Enw / Name: **Kate Pawsey**

Teitl y gwaith / Title of work: **Gweladwy anweladwy gweladwy / Visible invisible visible**

Cyfrwng / Medium: **Cyfryngau cymysg. Delweddau a geiriau / Mixed media. Images and words**

Datganiad yr artist:

Ym mis Ionawr cafodd fy mhartner Julian drawiad ar y galon. Dychmygais sut brofiad oedd hwn a gyrrais i Adran ITU yr ysbyty yng Nghaerfaddon. Roedd Julian yn anymwybodol ac nid yw'n cofio dim o'r cyfnod cyntaf hwnnw. Roeddwn i'n gallu ei weld. Tynnais lun ohono ynghlwm wrth y systemau cynnal bywyd; tynnais lun ohono pan adenillodd ymwybyddiaeth; tynnais lun ohono â masg nebiwlydd pan oedd ganddo Covid; tynnais lun ohono, heb y tiwbiau, tra ei fod yn cysgu. Cofnodais brofiadau gweladwy ac anweladwy roedd y ddau ohonom wedi byw drwyddynt. Myfyriais ar welededd cymharol y methodig - yr amnesia diwylliannol sy'n ymwneud â breuder.

Artist's statement:

In January my partner Julian had a heart attack. I imagined what this was like and drove to the ITU of the hospital in Bath. Julian was unconscious and remembers nothing of that first phase. I could see him. I drew him attached to the life support systems; I drew him when he regained consciousness; I drew him with a nebuliser mask when he had Covid; I drew him, tubeless, while he slept. I recorded visible and invisible experiences we both lived through. I reflected on the relative visibility of the infirm - the cultural amnesia around fragility.

NFS

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **kp237723@colegsirgar.ac.uk**

Enw / Name: **Kaylie Ramshaw**

Teitl y gwaith / Title of work: **Anifeiliaid Anghofiedig / Forgotten Animals**

Cyfrwng / Medium: **Paentiad olew ar gynfas / Oil painting on canvas**

Datganiad yr artist:

Rwyf wedi creu paentiad sy'n ystyried yr anifeiliaid a oedd yn arfer byw ar draws Prydain a sut yr oeddem hefyd yn defnyddio'r anifeiliaid hyn ar gyfer hela etc. Roeddent yn rhan fawr o'n treftadaeth. Nid ydynt bellach yn wyllt yn y DU. Rhwng 1066 a 1152, roedd partïon hela bleiddiaid yn aml yn cael eu trefnu gan frenhinoedd ac uchelwyr. Diflannodd eirth yn yr 11eg ganrif, diflannodd bleiddiaid yn yr 17eg ganrif, a diflannodd y lyncs tua 1,300 o flynyddoedd yn ôl oherwydd hela a cholli cynefinoedd.

Artist's statement:

I have created a painting that looks into the animals that used to live across Britain and how we also used these animals for hunting. They were a big part of our heritage. They are no longer wild in the UK. Between 1066 to 1152, wolf hunting parties were often organized by kings and nobility. Bears disappeared in the 11th century, wolves disappeared in the 17th century, and the lynx disappeared around 1,300 years ago due to hunting and habitat loss.

Pris / Price **£100**

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **KR225859@colegsirgar.ac.uk**

Enw / Name: **Shannon Maggie Rees**

Teitl y gwaith / Title of work: **Gwystl Sgrin**

Cyfrwng / Medium: **Ffotograffiaeth / Photography**

Datganiad yr artist:

Mae fy nghyflwyniad yn archwilio'r datgysylltiad diwylliannol a achosir gan ddylanwad y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r ddelwedd wedi'i hysbrydoli gan baentiad Osi Rhys Osmond, *Gwystl Glas*, lle mae'n cuddio wyneb ffigwr gyda'i ddefnydd o baent. Rwyf innau hefyd wedi defnyddio rhwystrau i gyfleu pryder Osmond ynghylch gwanhau hunaniaeth Gymreig drwy ffug ymyrraeth.

Rwy'n haeru bod "dieithriad mewnol" wedi'i ddwysáu gan ddatblygiad y cyfryngau cymdeithasol wrth gyfyngu ar ein canfyddiad o hunaniaeth Gymreig trwy gynrychiolaeth wedi'i churadu o'n tirwedd a'n treftadaeth ar-lein. Rwy'n dadlau mai rhwystrau sy'n dangos orau'r datgysylltiad rhwng cenhedlaeth ifanc Cymru a'u dealltwriaeth o hunaniaeth Gymreig.

Artist's statement:

My submission explores the cultural disconnect caused by the influence of social media. The image is inspired by Osi Rhys Osmond's painting *Gwystl Glas*, in which he conceals a figure's face with his paint application. I too have used obstructions to communicate Osmond's concern about weakening Welsh identity through fabricated intervention.

I assert that "internal estrangement" has been intensified by the advancement of social media in limiting our perception of Welsh identity via the curated representation of our landscape and heritage online. I contend that obstruction best illustrates the disconnect between the young Welsh generation and their understanding of Welsh identity.

NFS

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **shannon.maggie.photography@gmail.com**

Enw / Name: **Chelsea Reilly**

Teitl y gwaith / Title of work: **Forgotten Transcription / Trawsgrifiad Anghofiedig**

Cyfrwng / Medium: **Efydd / Bronze**

Datganiad yr artist:

Mae *Trawsgrifiad Anghofiedig (Forgotten Transcription)* yn archwilio'r syniad o fapio, yn ymchwilio i fannau a lleoedd ymenyddol a ffisegol, gan annog meddyliau tawel drwy amlygiadau artistig. Mae'r geiriau rwy'n eu torri yn dweud stori am drosiadau haniaethol amser a dreuliwyd yng Nghymru, fel math o fyfyrddod a modd o fynegiant. Cychwynnodd y daith hon drwy'r ymarfer seicotherapiwtig o dorri papur. Yna, trawsnewidiodd y geiriau hyn yn gast efydd i adrodd iaith Cymru, gyda phob llythyren yn erydu i ddatgelu tirwedd newydd. Mae'r darn wedi bod trwy amrywiaeth o brosesau i gyrraedd y ffurf y'i cyflwynir, gyda phob datblygiad yn dirywio, yn colli ac yn anghofio ei hunaniaeth flaenorol.

Artist's statement:

Forgotten Transcription explores the notion of cartography, investigating cerebral and physical spaces and places, encouraging calm thoughts through artistic manifestations. The words I cut tell a story of abstract metaphors of time spent in Wales, as a form of meditation and mode of expression. This journey began through the psychotherapeutic practice of papercutting, these words then transformed into a bronze cast to narrate the language of Wales, with each letter eroding away to reveal a new landscape. The piece has undergone a variety of iterations to reach its presented form, with each progression deteriorating, losing and forgetting its former identity.

NFS

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **chelsea_rebecca_@outlook.com**

Enw / Name: **Paula Richards**

Teitl y gwaith / Title of work: **laith yr Tir**

Cyfrwng / Medium: **Pigmentau naturiol y ddaear ac olew cnau Ffrengig, siarcol, graffit ar fwrdd hapgael / Natural earth pigments and walnut oil, charcoal, graphite on found board**

Datganiad yr artist:

Mae hanner o fioamrywiaeth Prydain wedi diflannu ers y chwyldro diwydiannol. Diflannodd Cymraeg, fy iaith gyndeidiol, o'm teulu genhedlaeth yn ôl. A gyda hynny 4000 o flynyddoedd o wybodaeth, doethineb, a thraddodiad. Rwy'n credu bod yna gyswllt rhwng bioamrywiaeth a cholled ddiwylliannol. Os ydyn ni am osgoi difodiant rhywogaethau mae rhaid i ni ddarganfod ac adennill o'n diwylliannau brodorol sut i fyw fel rhan o natur.

Maen nhw wedi bod yno erioed.
llythrennau, geiriau, seiniau
Wedi'u claddu dan haenau o lo ac aberth
Ac esgyrn glowyr, cregyn mâl
Disgleirio, gwrando.
Llythrennau, geiriau, seiniau
Swynganeuon doethineb
Yn gweddïo i gael eu gweld,
Eu clywed.

Artist's statement:

Half of Britain's biodiversity has disappeared since the industrial revolution. My ancestral language, Cymraeg, disappeared from my family a generation ago. And with that 4000 years of knowledge, wisdom, and tradition. I believe there is a link between biodiversity and cultural loss. If we want to avert species annihilation we have to discover and recover from our indigenous cultures how to live as part of nature.

They have always been there.
letters, words, sounds
Buried beneath layers of coal and sacrifice
And bones of miners, crushed shells
Glistening, listening.
Letters, words, sounds,
Incantations of wisdom
Praying to be seen,
Heard.

NFS

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **faelicon@yahoo.co.uk**

Enw / Name: **Julie Rising**

Teitl y gwaith / Title of work: **Town Moor Circa 68'**

Cyfrwng / Medium: **Mixed Media 16 x 25cm**

Datganiad yr artist:

Tyfais i i fyny pan oedd diwylliant mwynloddio'n dal i ffynnu yng Nghymru a Gogledd Ddwyrain Lloegr. Pan oeddwn i'n tyfu i fyny roeddwn i wrthi'n gyson yn braslunio patrymau wedi'u dylanwadu gan siapiau ac arsylwadau bob dydd. Mae fy mhroses gelf yn reddfod, haniaethol ac yn aml yn seiliedig ar atgofion.

Mae'r darn hwn yn uno siapiau paralel rhwng dau gysyniad a gyfeirnodir gyda'i gilydd. Silwét olwyn siafft y Pwll ac olwyn Fferis ffair yr 'Hoppings' yn Newcastle. Yma cipiais y cyfodiad rhwng y ddwy a seicoddaearyddiaeth yr hyn y mae'r olwynion yn eu cynrychioli yn nhermau goroesiad diwylliannol bob dydd yn y gorffennol a chydbwysedd bywyd a hapusrwydd, trwy ddefnyddio haenau o gyfryngau cymysg sy'n cynrychioli fy rhestr o atgofion.

Artist's statement:

I grew up while mining culture was still thriving in Wales and North East England. Growing up I constantly sketched patterns influenced by everyday shapes and observations. My art process is intuitive, abstract and often based on memories.

This piece joins parallel shapes between two concepts referenced together. The Pit shaft wheel silhouette and the Ferris fairground wheel of the 'Hoppings' in Newcastle. Here I captured the juxtaposition between the two and the psychogeography of what the wheels represent in terms of past cultural daily survival and life happiness balance, by using mixed media layers which are representative of my inventory of memories.

Pris / Price **£90**

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **jr220863@colegsirgar.ac.uk**

Enw / Name: **Karen Woods**

Teitl y gwaith / Title of work: **Unedig datodedig / United untied**

Cyfrwng / Medium: **Sgrin-brint / Screen print**

Datganiad yr artist:

Mae Affrica bob amser wedi fy ysbrydoli ac rwyf wedi teithio i 9 gwlad wahanol yn Affrica. Ni allaf feddwl am unrhyw le y mae hunaniaeth ddiwylliannol yn gryfach ac yn fwy hanfodol. Ymddengys i mi fod hanes yn cael ei ysgythru i galon pob dyn, dynes a phlentyn ac yn annileadwy. Mae'r darn hwn yn archwilio'r cysylltiad rhwng pysgotwyr heddiw yn y Gambia a'u cyndeidiau, wedi'u rhwymo a'u cludo i ffwrdd ar longau. Mae amwysedd pa ddynion sy'n wyn a pha rai sy'n ddu yn ychwanegu cydbwysedd i'r llun ac yn annog archwiliad manylach. Bydd unrhyw ffi o'i werthiant yn mynd i'r pysgotwyr yn y llun.

Artist's statement:

Africa has always inspired me and I have travelled to 9 different African countries. I can think of no place that cultural identity is stronger and more vital. It seems to me that history is etched into the heart of every man, woman and child and is indelible. This piece explores the link between today's fishermen in the Gambia and their forefathers, bound and taken away on ships. The ambiguity of which men are white and which black adds a balance to the picture and encourages closer inspection. Any fee from its sale will go to the fishermen in the picture.

Pris / Price **£60**

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **kw227715@colegsirgar.ac.uk**

Enw / Name: **Paula Topham**

Teitl y gwaith / Title of work: **Araf / Slow**

Cyfrwng / Medium: **Pastel**

Datganiad yr artist:

Mae'r Gymraeg yn treiddio i sawl agwedd ar ein bywydau bob dydd yma yng Nghymru. Cawn ein hatgoffa'n ddyddiol o'n gofod unigryw yn y byd gan yr arwyddion ffordd wrth i ni deithio yn ôl ac ymlaen. I lawer, dyma'r unig gysylltiad sydd gennym â'r iaith. Rydyn ni'n arafu ac mae'r ffordd yn ymdroelli ymlaen. Ond rhywle yng nghefn ein meddyliau, erys y geiriau.

Artist's statement:

The Welsh language permeates many aspects of our daily lives here in Wales. We are reminded daily of our unique space in the world by the very road signs as we travel to and fro. For many, this is the only contact we have with the language. We slow down and the road meanders on. But somewhere in the back of our minds, the words remain.

NFS

Cyfeiriad e-bost / Email Address: **pt173262@colegsirgar.ac.uk**